# Adroddiad Blynyddol Monitro Safonau'r Gymraeg 2025/26

# Cyflwyniad

Mae gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u gosodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2016.

Mae Safonau’r Gymraeg 155, 161 a 167 yn gosod gofyniad ar IOPC i gyhoeddi’r adroddiad blynyddol hwn sy’n cynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae’r sefydliad wedi cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a geir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

# Uchafbwyntiau

Eleni rydym wedi parhau i adeiladu ar ein cynnydd dros y ddwy flynedd flaenorol wrth ymgorffori polisïau, gweithdrefnau a mentrau sy'n ein galluogi i gydymffurfio â gofynion ein Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chynnig gwasanaeth teg i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg yn eu cyswllt â ni. Mae nifer o welliannau a chyflawniadau sylweddol i'w hamlygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Rydym wedi creu a llenwi swydd Cyfieithydd Cymraeg newydd, gan gynyddu faint o ddeunydd rydym yn gallu ei gyfieithu a'i wneud ar gael i randdeiliaid, staff a'r cyhoedd. Rydym yn parhau i archwilio'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnodd hwn i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg. Cafodd penodiad ein Cyfieithydd Cymraeg newydd ei gynnwys mewn erthygl hyrwyddo ar ein mewnrwyd, Yr Hwb. Cyflwynodd yr erthygl y person newydd a'r broses ddiwygiedig ar gyfer ceisiadau cyfieithu.

- Rydym bellach yn cyhoeddi pob hysbyseb swydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein platfform recriwtio. Rydym hefyd wedi adolygu a diweddaru’r broses recriwtio gyfan i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu dewis defnyddio’r Gymraeg ym mhob cam. Mae hyn yn cynnwys y dewis i gael cyfweliad yn y Gymraeg ar gyfer unrhyw rôl, boed hyn yn cael ei hysbysebu'n fewnol neu'n allanol.

- Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio gyda'r bwriad penodol o gynyddu nifer y rolau ymchwilwyr Cymraeg hanfodol yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Dynodwyd dwy rôl yn rhai Cymraeg hanfodol (Lefel 4) a llenwyd y ddwy rôl yn llwyddiannus. Cwblhaodd ymgeiswyr ar gyfer y rolau hyn wahanol agweddau o’r broses ddethol yn y Gymraeg er mwyn dangos eu cymhwysedd wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn senarios sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth ymchwilio.

- Dynodwyd un swydd yn ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid yn rôl Cymraeg hanfodol (Lefel 4). Hysbysebwyd y swydd wag yn genedlaethol ac yn lleol yn ardal Gogledd Cymru ac mae wedi'i llenwi gan siaradwr Cymraeg cymwys.

- Mae ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid wedi uwchraddio ei darpariaeth ffôn i gynnwys llinell ffôn bwrpasol yn y Gymraeg o fewn ei system weithredu. Cyflwynir neges wedi'i recordio i alwyr sy'n cynnig dewis iaith cyn gynted ag y bydd eu galwad yn cysylltu â'n gwasanaeth. Pan nad yw'r person sydd wedi'i gyflogi yn y rôl Cymraeg hanfodol ar gael, mae galwadau i'r gwasanaeth iaith Gymraeg yn mynd trwy grŵp chwilio i ddod o hyd i wirfoddolwr o’r Rhwydwaith y Gymraeg i Staff a allai fod yn rhydd i ateb yr alwad. Caiff galwyr sy'n dewis yr opsiwn iaith Gymraeg y cynnig i adael neges a derbyn galwad yn ôl pan nad yw'r gwasanaeth iaith Gymraeg ar gael ar y pryd.

- Rydym wedi adnewyddu ac ail-lansio'r dudalen iaith Gymraeg ar ein mewnrwyd, Yr Hwb. Mae'r dudalen hon bellach yn gwasanaethu fel siop un stop i staff sydd eisiau dysgu sut i ymgorffori'r Gymraeg yn eu gwaith a chael mynediad at wybodaeth fwy cyffredinol am yr iaith Gymraeg.

- Mynychodd ein Rheolwr Datblygu’r Gymraeg gyfarfodydd tîm y Tîm Cymorth Gweithredol, y Tîm Cyllid, y Tîm Gwaith Achos a'r Tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth. Helpodd y sesiynau pwrpasol hyn i godi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a sut maent yn berthnasol ar draws gwahanol feysydd y busnes.

- Mae ein llawlyfr gweithrediadau, sy'n rhoi canllawiau i ymchwilwyr ar sut i gynnal ymchwiliadau, wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad penodol at gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ a sefydlu negeseuon peiriant ateb dros y ffôn gan dystion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Mae ein proses ddisgyblu a'n canllawiau i staff wedi'u diweddaru i'w gwneud hi'n glir i staff fod ganddyn nhw ddewis p'un ai i gymryd rhan yn y broses hon yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae canllawiau manwl wedi'u cynnwys i reolwyr sy'n gweithredu'r broses fel eu bod yn ymwybodol o'r gofynion penodol sy'n ymwneud â dewis iaith, e.e. darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.

- Rydym wedi cynhyrchu modiwl ymsefydlu newydd ar gyfer y Coleg Plismona i'w gyflwyno i swyddogion a staff heddlu newydd. Mae'r modiwl yn gyflwyniad i IOPC, pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, sut y gall swyddogion heddlu a staff yr heddlu ddod ar ein traws a gwybodaeth ddefnyddiol bellach. Mae'n cynnwys adran am yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys y datganiad canlynol:

  *Rydym yn dilyn Safonau'r Gymraeg. Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg gydag IOPC, rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg o ddifrif ac wedi cymryd camau i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael i chi os bydd angen i chi gysylltu â ni.*

# Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

# Swyddi a hysbysebwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd 2025/26:

- Hysbysebwyd 2 swydd fel rhai Cymraeg hanfodol
- Hysbysebwyd 16 swydd fel rhai Cymraeg dymunol
- Hysbysebwyd 56 o swyddi fel rhai lle nad oes angen sgiliau Cymraeg

# Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod adrodd 2025/26, cofrestrodd 21 aelod o staff ar gyrsiau i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg.

| Enw'r cwrs | Nifer y dysgwyr 2023/24 | Nifer y dysgwyr 2024/25 | Nifer y dysgwyr 2025/26 |
|---|---|---|---|
| Mynediad | 17 | 16 | 15 |
| Sylfaen | 2 | 5 | 4 |
| Canolradd | 0 | 0 | 1 |
| Gloywi Iaith | 1 | 0 | 0 |

# Sgiliau Cymraeg y gweithwyr

Gofynnwyd i bob aelod o staff nodi eu lefel o sgiliau iaith Gymraeg yn system Rheoli Pobl IOPC. Gofynnwyd i staff asesu eu lefel o sgiliau yn erbyn 6 disgrifiad:

- Lefel 0 (Dim sgil)
- Lefel 1 (Mynediad)
- Lefel 2 (Sylfaen)
- Lefel 3 (Canolradd)
- Lefel 4 (Uwch)
- Lefel 5 (Hyfedr)

Mae 767 o aelodau staff bellach wedi datgan eu lefel o sgiliau Cymraeg; mae hyn yn cynrychioli 80% o gyfanswm y staff. Dangosir dadansoddiad o'r ymatebion isod:

| Lefel y sgiliau | Nifer: 2023/24 | % 2023/24 | Nifer: 2024/25 | % 2024/25 | Nifer: 2025/26 | % 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 221 | 22% | 527 | 52% | 612 | 63% |
| Lefel 1 | 49 | 5% | 106 | 9% | 114 | 11% |
| Lefel 2 | 8 | 0.81% | 22 | 0.8% | 23 | 2.4% |
| Lefel 3 | 2 | 0.2% | 4 | 0.4% | 5 | 0.5% |
| Lefel 4 | 1 | 0.1% | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% |
| Lefel 5 | 4 | 0.4% | 6 | 0.6% | 11 | 1.1% |

Mae ymdrechion i gasglu data gan bob aelod staff presennol wedi parhau eleni, gyda nodiadau atgoffa yn cael eu cyhoeddi ar fewnrwyd y staff o bryd i'w gilydd. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gynnwys set ddata lawn yn yr adroddiad monitro blynyddol nesaf.

# Cydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth

## Cyfathrebu â'r cyhoedd

Mae gan ein mewnrwyd, Yr Hwb, dudalen Iaith Gymraeg ddwyieithog bwrpasol sy'n dwyn ynghyd gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg, Rhwydwaith y Gymraeg i Staff IOPC a digwyddiadau a gwybodaeth sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Mae gwybodaeth am sut i gael cyfieithiadau Cymraeg ar gael i staff ar y dudalen hon hefyd.

Mae'r dudalen iaith Gymraeg bwrpasol hon yn cynnwys dogfennau manwl "Canllawiau i Staff" i helpu ein staff i ddeall ymarferoldeb gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg yn eu gweithgareddau busnes dyddiol. Mae'r Canllawiau wedi'u rhannu'n dair adnodd targed. Mae un yn ymdrin â chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn ysgrifenedig, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Mae hefyd yn egluro'r gofynion mewn perthynas ag arwyddion dwyieithog. Mae un arall yn ymdrin â'r gofyniad i gynnig dewis iaith i staff mewn perthynas â dogfennau a pholisïau penodol. Mae'r drydedd ddogfen Canllawiau yn cynnig awgrymiadau ac enghreifftiau ar sut i asesu prosesau busnes, polisïau, prosiectau a mentrau ar gyfer effeithiau posib ar y Gymraeg, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg a staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae ein Rheolwr Datblygu'r Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd tîm ar draws y sefydliad i ddarparu canllawiau ac ymwybyddiaeth fwy pwrpasol o sut gall prosesau ein busnes barhau i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae gennym ddwy system rheoli cofnodion electronig sydd wedi'u datblygu i gynnwys maes i gofnodi dewis iaith defnyddiwr gwasanaeth neu randdeiliad.

Mae'r papur pennawd llythyr a ddefnyddir gan ein swyddfa yng Nghaerdydd i gyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys datganiad dwyieithog ein bod yn croesawi gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae tudalen “cysylltwch â ni” ein gwefan ar gael yn y Gymraeg, mae datganiad ar y dudalen hon yn egluro ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Ym mhob un o’n cyhoeddiadau rydym yn cynnwys datganiad ein bod yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg. Pan fydd siaradwyr Cymraeg yn ffonio ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid, mae nhw'n clywed neges yn y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Mae pob aelod staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i gyfarch pobl ar y ffôn yn y Gymraeg, ac mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar ein mewnrwyd.

Caiff unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd neu hysbysebu rydym yn cynhyrchu i'w defnyddio yng Nghymru eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth fynychu digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn arddangos fersiynau Cymraeg o’n taflenni, gan gynnwys y daflen “Sut i wneud cwyn: canllaw i’r system gwynion am yr heddlu”.

Dyma enghreifftiau o ddogfennau ar gyfer y cyhoedd rydym yn eu cynhyrchu'n ddwyieithog:

- Sut i wneud cwyn: canllaw i’r system gwynion am yr heddlu
- Ffurflen cwynion
- Ffurflenni adolygu/apelio
- Adroddiad Blynyddol Monitro Safonau’r Gymraeg
- Adroddiad Effaith
- Cynllun Strategol
- Pecyn Teulu (gwybodaeth i deuluoedd sydd wedi colli rhywun)
- Taflen Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

Gyda'n Cyfieithydd Cymraeg bellach yn ei swydd, rydym wrthi yn gwella nifer y tudalennau gwefan sydd ar gael yn y Gymraeg yn ein hadran "Newyddion". Pan mae tudalennau gwe ar gael yn y Gymraeg, dangosir hyn trwy gynnwys y gair “Cymraeg” ar ben y dudalen.

Nid oes gennym bresenoldeb ar Facebook. Mae ein negeseuon safonol ar X (pan fyddant ond yn berthnasol i Gymru) yn cael eu trydar yn ddwyieithog. Mae'r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i ateb yn Gymraeg unrhyw negeseuon cyfryngau cymdeithasol a dderbynnir yn y Gymraeg.

## Arwyddion

Mae unrhyw arwyddion sy’n cael eu codi yng Nghymru yn ddwyieithog, er enghraifft byrddau apêl tystion. Mae cyfieithu testun ar gyfer arwyddion yn cael ei allanoli i gwmni cyfieithu.

### Hyrwyddo Gwasanaethau’r Iaith Gymraeg

Mae ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn cael eu hyrwyddo trwy ein gwefan, canolfan gyswllt cwsmeriaid ac yn ein taflenni gwybodaeth. Rydym wedi cynhyrchu fideo sy'n esbonio sut y gall defnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni, gellir dod o hyd i hwn **yma** .

Mae geiriad i nodi bod aelod o staff yn siarad Cymraeg ar gael ar ein mewnrwyd i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg eu copïo a'u cynnwys yn eu llofnodion e-bost.

Mae bathodynnau a laniardau sy'n arddangos logo "Siarad Cymraeg" ar gael i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno eu gwisgo.

## Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisïau

Mae’r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i ystyried y Gymraeg wrth lunio polisïau newydd ac adolygu polisïau presennol. Mae ein ffurflenni Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn annog staff i ystyried y Gymraeg ac yn darparu modd o gofnodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a sylwir arnynt. Mae ein Rheolwr Datblygu’r Gymraeg yn rhoi canllawiau i staff i sicrhau bod y Gymraeg wedi’i hystyried yn briodol yn ein polisïau, prosiectau a mentrau newydd a bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn cael eu ehangu i’r eithaf. Mae ein Rheolwr Datblygu’r Gymraeg hefyd yn eistedd ar ein Panel Asesu Effaith ar Gydraddoldeb mewnol sy’n darparu craffu ac adborth ar asesiadau sy’n cael eu cwblhau mewn perthynas â pholisïau, prosiectau a mentrau newydd. Yn ystod y cyfnod adrodd 2025/26, rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Gymraeg gyngor cydymffurfiaeth mewn perthynas â 18 o bolisïau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau sefydliadol newydd neu ddiwygiedig.

## Cydymffurfio â Safonau Gweithredol

### Defnydd Mewnol o Bolisi'r Gymraeg

Mae drafft polisi newydd ar sut y byddwn yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol wedi'i greu, ei gymeradwyo ac mae wrthi’n mynd trwy ein proses llywodraethu fewnol. Bydd y Polisi Defnydd Mewnol o’r Gymraeg newydd yn cael ei weithredu yn ystod y cyfnod adrodd 2026/27. Roeddem yn falch o fod wedi gweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i weithredu eu canllawiau ar gynhyrchu Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg ar y Lefel Sylfaenol.

### Prosesau recriwtio

Rydym yn falch o allu adrodd bod ein proses recriwtio gyfan bellach yn cynnig cyfle i ymgeiswyr wneud cais am swyddi a symud ymlaen trwy'r gwahanol gamau yn y

Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff pob swydd newydd neu wag ei sgrinio am statws Cymraeg hanfodol/dymunol gan ddefnyddio ein teclyn asesu gwrthrychol.

### Cofnodi Gwyliau Blynyddol, Absenoldebau o'r Gwaith ac Oriau Gweithio Hyblyg

Mae ffurflenni sy'n cofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio hyblyg ar gael yn y Gymraeg trwy ein system adnoddau dynol hunanwasanaeth ar-lein.

### Polisïau Adnoddau Dynol

Mae rhai o'r polisïau adnoddau dynol y cyfeirir atynt gyda Hysbysiad Cydymffurfiaeth Iaith Gymraeg IOPC wedi'u rhoi ar gael yn y Gymraeg, sef:

- Polisi Cwynion Cyflogaeth (gan gynnwys Canllaw i Reolwyr a Chanllaw i Staff)
- Gweithdrefn Disgyblu (gan gynnwys Canllaw i Reolwyr a Chanllaw i Staff)
- Polisi Iechyd a Diogelwch

### Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu Staff

Mae staff wedi cael canllawiau yn eu hysbysu y gallant wneud cwynion yn y Gymraeg ac y gallant ymateb yn y Gymraeg i gwynion neu honiadau a wneir amdanynt. Mae'r canllawiau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein mewnrwyd, Yr Hwb. Mae'r canllawiau'n cwmpasu:

- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwyn maent wedi ei wneud yn y Gymraeg
- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd ynghylch cwyn neu honiad sydd wedi cael ei wneud yn eu herbyn
- yr hawl i gael gwybod yn y Gymraeg am ganlyniad cwyn neu honiad yn eu herbyn

## Rhwydwaith y Gymraeg i Staff

Mae Rhwydwaith Gymraeg IOPC (y Rhwydwaith) yn grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys aelodau staff Cymraeg sy'n siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Diben y Rhwydwaith yw:

- hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gweithle,
- cefnogi’r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg i aelodau'r cyhoedd

- gweithredu fel grŵp ymgynghorol a chyfaill beirniadol i IOPC wrth ddatblygu polisïau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau newydd a allai effeithio ar siaradwyr a dysgwyr Cymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd 2025/2026 mae'r Rhwydwaith wedi ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol i gefnogi'r Gymraeg yn IOPC:

- staffio stondin IOPC yn yr eisteddfod genedlaethol yng Nghymru
- rhoi adborth ar ddatblygiad polisïau IOPC
- hyrwyddo'r ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg
- dathlu Dydd Gŵyl Dewi
- trefnu gweithgaredd codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo Diwrnod Shwmae S'mae

# Gwybodaeth bellach / rhoi adborth

Am fwy o wybodaeth am gydymffurfiaeth IOPC â safonau'r Gymraeg, neu os hoffech roi adborth adeiladol i ni ynglŷn â'n gwasanaethau iaith Gymraeg, cysylltwch â'n Rheolwr Datblygu'r Gymraeg, Catherine Baldwin:
catherine.baldwin@policeconduct.gov.uk

Cyhoeddwyd Medi 2026

**© IOPC 2026**

This is licensed under the Open Government Licence v3.0
except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg